# Gwyliau bwyd ym mhobman!

1. Dewiswch 5 ffaith newydd rydych chi wedi'u dysgu o'r darn.

i) ........................................................................................................................

ii) ........................................................................................................................

iii) ........................................................................................................................

iv) ........................................................................................................................

v) ........................................................................................................................

2. Chwiliwch am enghreifftiau yn y darn o fanteision **economaidd** a manteision **cymdeithasol** gwyliau bwyd. Efallai y byddwch yn gallu meddwl am enghreifftiau newydd hefyd.
   Cyflwynwch y wybodaeth fel diagram Venn, gan fod ambell fantais yn fantais economaidd a chymdeithasol.
   Lluniwch ddarn ysgrifenedig am fanteision economaidd a chymdeithasol gwyliau bwyd, gan ddefnyddio'r diagram Venn fel taflen gynllunio.

3. Edrychwch eto ar ffigurau ymwelwyr Gŵyl Fwyd y Fenni yn 1999 a'r ffigurau ymwelwyr erbyn hyn. Beth yw **canran y cynnydd**?

   ......................................................................................................................................

4. Ydych chi wedi bod mewn gŵyl fwyd erioed? Beth oedd eich profiad chi?

   Soniwch am eich profiad wrth eraill, a/neu ysgrifennwch ddarn bach y gallech ei roi mewn cylchgrawn.
   Trafodwch:
   - Pa ffurf fyddai orau er mwyn rhoi sylw i'r ŵyl?
   - A fyddai defnyddio'r person cyntaf neu'r trydydd person yn well er mwyn cyfleu'r profiad o fod mewn gŵyl fwyd?
   - Beth yw nodweddion testun perswadiol?

   Neu, os nad ydych chi wedi bod mewn gŵyl fwyd o'r blaen, pa argraff gewch chi o'r fideo? Ydy e'n gwneud i chi eisiau ymweld â gŵyl fwyd?

Gweiddi

5. Gyda phartner, rhowch y pwyntiau bwled o dan y pennawd: **Beth allwch chi ei ddisgwyl mewn gŵyl fwyd?** yn nhrefn blaenoriaeth, gyda'r peth pwysicaf i chi'n gyntaf.

i. ................................................................................................

ii. ................................................................................................

iii. ................................................................................................

iv. ................................................................................................

v. ................................................................................................

vi. ................................................................................................

vii. ................................................................................................

6. Ble mae'r ŵyl fwyd agosaf at eich ysgol chi? Gwnewch ychydig o ymchwil ar y we, a chynlluniwch ddiwrnod yn yr ŵyl, hyd yn oed os yw hyn yn ystod y gwyliau neu ar y penwythnos. Er enghraifft:

- Beth fyddai'r costau teithio, e.e. ar y trên neu mewn bws?
- Oes rhaid talu tâl mynediad? Beth fyddai'r gost i'r dosbarth?
- Pa weithgareddau fyddai fwyaf o ddiddordeb i'r dosbarth?
- Am faint o'r gloch fyddech chi'n gadael yr ysgol ac yn dychwelyd?

7. Dychmygwch eich bod yn **trefnu gŵyl** yn yr ysgol:
    - Pa gwmnïau bwyd lleol y gallwch chi eu gwahodd i'r ŵyl? A fyddwch chi'n codi tâl anyn nhw am gael gwerthu eu nwyddau? Os felly, faint?
    - Pa fath o arddangosfeydd y gallech chi eu cynnig?
    - Pwy allai berfformio cerddoriaeth fyw?
    - Pa fath o weithdai y gallech chi eu cynnig i'r ymwelwyr?
    - Pwy allai gynnig gweithdai celf a chrefft?
    - Penderfynwch a fyddech chi'n codi tâl mynediad ac os felly, faint fydd hwnnw.
    - Gwnewch amcangyfrif bras o faint o arian y byddai'n rhaid i chi ei wario er mwyn cynnal y diwrnod, a faint o arian y gallech chi ei dderbyn petaech chi'n codi tâl mynediad.
    - Os nad yw hi'n debygol o wneud elw, a oes cwmnïau lleol eraill a fyddai'n fodlon **nodd**i'r ŵyl? Am faint o nawdd y byddech chi'n ei ofyn?

8. Dewiswch y geiriau/ymadroddion cywir i'w hysgrifennu wrth ymyl y diffiniadau:

**cyfraniad, fel madarch, sefydlu, llond dwrn, ymarferol, gwirfoddolwyr**

i) pobl sy'n gwneud rhywbeth heb dâl ..................................................

ii) ychydig bach iawn ..................................................

iii) yn gyflym dros ben ..................................................

iv) rhodd i rywbeth/rhywun ..................................................

v) cychwyn, dechrau, sylfaenu ..................................................

vi) yn ymwneud â gweithgarwch, nid theori ..................................................

Ysgrifennwch dair brawddeg newydd gan ddefnyddio rhai o'r geiriau/ymadroddion hyn.

i) ..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

ii) ..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

iii) ..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

..........................................................................................................................

9. “Rhywbeth i bobl sydd â digon o arian i’w wario yw gwyliau bwyd.”  Trafodwch y gosodiad hwn.

**Atebion:**

1. 900%

Roedd 3,000 o bobl yn arfer mynd i'r ŵyl, ac mae 30,000 yn mynd nawr. Felly mae 27,000 yn fwy o bobl yn mynd i'r ŵyl.

27,000 rhannu â 3,000 = 9, ac yna, lluosi â 100.

$$\frac{27{,}000}{3{,}000} \times 100 = 900\%$$

8.

| | | |
|---|---|---|
| i) | pobl sy'n gwneud rhywbeth heb dâl | **gwirfoddolwyr** |
| ii) | ychydig bach iawn | **llond dwrn** |
| iii) | yn gyflym dros ben | (tyfu/codi) **fel madarch** |
| iv) | rhodd i rywbeth/rhywun | **cyfraniad** |
| v) | cychwyn, dechrau, sylfaenu | **sefydlu** |
| vi) | yn ymwneud â gweithgarwch, nid theori | **ymarferol** |